Urdd

**Teitl y Swydd:** **Cynorthwyydd Arlwyo a Glanhau (x2)**

**Math o gontract:** **Swydd barhaol, Cytundeb rhan amser 28.50 awr**

**Graddfa:** **Graddfa 1: £20,566 (Pwynt 1)**

**Lleoliad:** **Gwersyll yr Urdd, Llangrannog**

## Amdanom ni

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru sy’n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud â chwaraeon, y celfyddydau, gwirfoddoli, hyfforddiant, gwaith dyngarol, rhyngwladol a phreswyl, sy’n eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i’w cymuned a’r byd yn ehangach.

Ers ei sefydlu yn 1922, mae’r mudiad wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o’u gwlad, yn agored i eraill ac yn ymgorfforiadau o’n hiaith a’n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru. Hyd yma mae dros 4 miliwn o bobl wedi bod yn aelodau o’r Urdd ac eleni mae’r mudiad yn edrych ymlaen at ddathlu ei ganmlwyddiant a chydag nifer o ddigwyddiadau mawr wedi’u cynllunio’n arbennig.

Yr Urdd yw cyflogwr trydydd sector cyfrwng Cymraeg mwyaf yng Nghymru, gyda dros 200 o staff wedi’u lleoli mewn 12 swyddfa ledled Cymru. Roedd ei drosiant blynyddol cyn Covid bron yn £12M, a daeth â gwerth economaidd o £32M i Gymru yn ystod 2019/20.

## Y Swydd

Mae angen uniolgion egnïnol a brwdfrydig sydd â diddordeb mewn arlwyo/glanhau i weitho fel rhan o dîm hyblyg i gyfrannu at lwyddiant y Gwersyll.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Rhiannon Flynn (Rheolwr Lletygarwch) ar 01239 652 148 neu rhiannon@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Mae’r Urdd yn cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith a gweithgareddau. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae’r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.

| DISGRIFIAD SWYDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Cynorthwyydd Arlwyo a Glanhau | **Lleoliad:** | Llangrannog |
| **Adran:** | Cegin a Llety | **Rheolaeth Llinell:** | Dim |
| **Yn adrodd i:** | Rheolwr Lletygarwch | **Graddfa:** | Graddfa 1 |

**Prif bwrpas y swydd:**
Bydd angen i'r cynorthwyydd arlwyo / glanhau ymgymryd ag amryw o ddyletswyddau Arlwyo a Glanhau ar gyfer darparu gwasanaeth cyflawn

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

1. Glanhau ystafelloedd llety Llangrannog ac unrhyw ardal ddynodedig i safon uchel
2. Cadw stordai yn daclus - ailgyflenwi stoc.
3. Chwarae rhan hanfodol i gynnal lefelau uchel o lanweithdra yn y Gwersyll.
4. Dyletswyddau gweini prydau bwyd a gweithdrefnau neuadd fwyta / cegin.
5. Gweithio o fewn terfynau amser.
6. Darparu gofal cwsmer da yn y Ffreutur.
7. Hysbysu'r Rheolwr a staff cynnal a chadw am unrhyw beth sydd o'i le neu angen sylw.
8. Os ydynt yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch neu'r cyhoedd, dylid sôn amdanynt yn syth.
9. Ymgymryd ag unrhyw gyfleoedd hyfforddi yn ôl y gofyn, a chymryd cyfrifoldeb am ddysgu a datblygiad personol.
10. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr.

**Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

**Hanfodol:**

1. Profiad o weithio fel rhan o dîm / neu ar liwt eu hunan
2. Agwedd egnïol a brwdfrydig tuag at waith
3. Sgiliau cyfathrebu da
4. Parodrwydd i fod yn hyblyg ar achlysuron am amserau shift
5. Rhaid bod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg

**Dymunol:**

1. Profiad o weithio mewn maes glanhau ac arlwyo
2. Cymwysterau neu ymwybyddiaeth o reolau diogelwch bwyd

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*

- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| |
|---|
| **Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**<br><br>Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd. |
| **Hyblygrwydd:**<br><br>Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.<br><br>Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr. |
| **Adolygiad:**<br><br>Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Ionawr 2020 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad. |

**CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU – CYTUNDEB ORIAU PENODOL**
**(**ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Cynorthwywyr Arlwyo a Glanhau (x2) |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr Lletygarwch |
| **Cyflog:** | Ar raddfa 1 Strwythur Cyflog yr Urdd **£20,566** |
| **Cytundeb:** | Cytundeb rhan amser **28.50 awr** yr wythnos, a sail **parhaol**.<br>Mae'r oriau hyn dros 5 diwrnod gan gynnwys gweithio bob yn ail penwythnos. |
| **Oriau gwaith:** | Oriau gwaith i'w drafod ac yn ôl y galw |
| **Lleoliad:** | Gwersyll yr Urdd Llangrannog |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| **Gwiriad GDG:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| **Yswiriant Bywyd:** | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |